sir ddinbych denbighshire
Cyngor / County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 06 Mawrth 2024 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | Y Cyng. Gwyneth Ellis / Bob Chowdhury – Prif Archwilydd Mewnol |
| **Awdur yr adroddiad** | Bob Chowdhury – Prif Archwilydd Mewnol |
| **Teitl** | Y wybodaeth ddiweddaraf am Bartneriaethau i Gyngor Sir Ddinbych |

# 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gynnydd diweddaraf Archwilio Mewnol o ran darpariaeth gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd mewn ysgogi gwelliant.

# 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I roi gwybodaeth am y gwaith a wnaed gan Archwilio Mewnol yn ystod y chwe mis diwethaf sy'n ymwneud â threfniadau partneriaethau o fewn y Cyngor. Fe fydd yr adroddiad yn galluogi'r Pwyllgor i ddeall y trefniadau partneriaeth gwahanol sydd ar waith a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r math gwahanol o drefniadau partneriaeth. Nid ydym wedi cwblhau rhestr lawn o bartneriaethau ar hyn o bryd gan nad yw'r wybodaeth hon ar gael yn hawdd. Serch hynny, pan fyddwn ni wedi cwblhau'r ymarfer, y cam nesaf fydd profi pa mor gadarn ac effeithiol yw'r partneriaethau wrth ddarparu'r gwasanaethau.

# 3. Beth yw'r Argymhelliad?

3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys yr adroddiad hwn ac yn cytuno ar amserlen i gwblhau cam un sydd yn ymwneud â llunio rhestr gywir o bartneriaethau.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Gofynnodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'r Prif Archwilydd Mewnol i gynnal ymarfer ynglŷn â chasglu gwybodaeth am y nifer a mathau gwahanol o drefniadau partneriaeth o fewn y Cyngor.

4.2. Y man cychwyn ar gyfer y darn yma o waith yw cyfarfod â phob Pennaeth Gwasanaeth i drafod pa drefniadau partneriaeth sydd ganddynt yn eu gwasanaeth. Nid yw'r dasg hon wedi bod yn un syml gan fod pump o'r naw Pennaeth Gwasanaeth yn newydd yn eu swydd. Mae'r Penaethiaid Gwasanaeth newydd wedi bod yn treulio amser yn cyfarfod â staff a thrafod sut mae eu gwasanaeth yn gweithredu ar hyn o bryd.

4.3. Mae ein gwiriadau cychwynnol wedi cadarnhau bod yna nifer o fathau gwahanol o drefniadau o fewn y Cyngor y gellir eu hystyried yn drefniant partneriaeth. Mae'r rhestr isod yn nodi'r mathau gwahanol:

- Trefniant partneriaeth ffurfiol yw pan fydd gan y gwasanaeth gontract ar waith;
- Trefniant partneriaeth anffurfiol yw pan fydd gan y gwasanaeth gytundeb ysgrifenedig ar waith;
- Model Gwasanaeth Amgen yw pan mae yna gontract manwl ar waith sydd yn nodi sut bydd y trydydd parti yn darparu'r gwasanaeth;
- Mae gan y Cyngor Femorandwm o Ddealltwriaeth gyda Chyngor Sir y Fflint ynglŷn â sut y bydd Gwasanaeth Archifo Gogledd Ddwyrain Cymru yn cael ei ddarparu;
- Mae gennym ni bartneriaeth Un Llwybr Mynediad at Dai ar waith gyda dau awdurdod lleol yng ngogledd Cymru a chwe chymdeithas tai.
- Mae yna sawl partneriaeth Cydweithio yng ngogledd a chanolbarth Cymru ar waith.

4.4. Yn ystod y chwe mis nesaf, bydd Archwilio Mewnol yn gweithio'n agos gyda phob gwasanaeth i adnabod a chofnodi'r nifer o bartneriaethau sydd ar waith, ynghyd â'r math o bartneriaeth ydyw, gwerth y bartneriaeth, cysylltiadau allweddol o fewn y bartneriaeth, hyd y bartneriaeth ac unrhyw ddangosyddion perfformiad allweddol sydd ar waith er mwyn mesur perfformiad y bartneriaeth.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r adroddiad hwn. Nid oes cyfraniad uniongyrchol at y Blaenoriaethau Corfforaethol, ond bydd rhai partneriaethau yn ymwneud â meysydd Blaenoriaeth Corfforaethol ac yn darparu sicrwydd ar eu darpariaeth.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Amherthnasol – nid oes penderfyniad na chostau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Amherthnasol – nid oes angen penderfyniad na chynnig ar gyfer newid mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Amherthnasol

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Ni cheir goblygiadau ariannol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Fe allai'r risg i'r Cyngor ynglŷn â threfniadau partneriaethau olygu bod y Cyngor yn derbyn gwasanaeth gwael, nad yw'n darparu gwerth am arian ac yn y pendraw y byddai wedi cael ei wneud i safon well petai'n cael ei wneud yn fewnol.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud penderfyniad mewn perthynas â'r adroddiad hwn.